CYFRES C6

amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
1 Samuel
16: 1-13

ADNOD
ALLWEDDOL
1 Samuel 16: 7

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon.

Stori 1 Dewis brenin

Pe bai'n rhaid i chi ddewis dyn i fod yn frenin, pa fath berson fyddech chi'n ei ddewis? Rhywun tal, golygus a chryf? Roedd Duw wedi dweud wrth Samuel am fynd i Fethlehem gan Ei fod wedi dewis un o feibion Jesse i fod yn frenin arnynt.
Roedd Samuel yn broffwyd - rhywun fyddai'n adrodd wrth y bobl beth oedd gan Dduw i'w ddweud wrthynt!

C **Beth oedd enw'r proffwyd? S** _ _ _ _ _

I ble y dywedodd Duw wrtho am fynd? B _ ___ _ _ _ _ _

Pan welodd Samuel Eliab, mab hynaf Jesse, oedd yn fachgen cryf a golygus, dywedodd wrtho'i hun, "Rhaid mai dyma'r dyn a ddewiswyd gan Dduw".

Ond yna, clywodd Duw yn dweud wrtho, "Ar olwg person y bydd pobl yn edrych, ond mae'r Arglwydd yn edrych ar y galon".
Nid Eliab oedd dewis Duw, felly.

C **Beth ddywedodd Duw wrth Samuel?**

"Yr h__ __ sydd yn y g __ __ __ __ a w __ __ meidrolyn, ond mae'r

A __ __ __ __ __ _____ yn gweld beth sydd yn y g __ __ __ __."

8

Yna, gwelodd Samuel yr ail fab, sef Abinadab. "Nid hwn chwaith ddewisodd yr Arglwydd," meddai Samuel. Galwodd Jesse ar ei saith mab. Pan oedd Samuel wedi gweld pob un o'r saith, dywedodd "Ni ddewisodd yr Arglwydd yr un o'r rhai hyn."

C **Sawl un o feibion Jesse welodd Samuel? Rhowch gylch o gwmpas yr ateb cywir.**

1 3 5 7 9

2

Druan o Samuel, rhaid ei fod yn meddwl iddo wneud camgymeriad! Ond deallodd fod un mab arall gan Jesse. Roedd Dafydd allan yn y caeau yn gofalu am y defaid. "Anfonwch amdano," meddai Samuel.
Cyn gynted ag y daeth Dafydd i mewn, dywedodd Duw, "Dyma'r un."
Arllwysodd Samuel olew am ben Dafydd. Roedd 'eneinio' gydag olew fel hyn yn arwydd y byddai Dafydd yn frenin, un diwrnod.

C **Ysgrifennwch yr atebion i'r cliwiau canlynol yn y Grid Geiriau.**

1. Roedd Dafydd yn y __ __ __ __ __
   cyn i Samuel ei alw.
2. Roedd Dafydd yn gofalu am yr rhain.
3. Aeth Samuel i Fethlehem i ddewis
   __ __ __ __ __ newydd.
4. Pwy ddewiswyd gan Dduw
   i fod yn frenin?



8

Dewisodd Duw Ddafydd oherwydd roedd Ef yn gwybod sut un oedd e mewn gwirionedd. Pan fyddwn ni'n edrych ar bobl, dim ond eu golwg ar y tu allan welwn ni. Hyd yn oed os byddwn yn edrych ar luniau pelydr-x, fedrwn ni ddim gweld beth mae pobl yn ei feddwl.
Duw'n unig sy'n gallu edrych ar y galon ac sy'n gallu gweld yn union sut rai ydym ni mewn gwirionedd.